



Skylark – in decline

# 2050 PENNAL 2050

## Newsletter 3



### PROJECT ENCOURAGES WILDLIFE

**WHAT** an array of biodiversity we have in our area! Ecologists have been carrying out a range of surveys, often helped by volunteers or our primary school children.

So far we have had one moth survey, two bird surveys, invertebrate freshwater monitoring in the Sychan, Cwrt and Dyfi as well as individual checks before some of our Pennal 2050 project environmental works are carried out. Here are some of the 45 bird species found (those in red are of Conservation Concern which need urgent conservation action as their numbers have declined so significantly in the last 25 years): Meadow Pipit, **Linnet**, Blackcap, **Song Thrush**, Treecreeper, **Grasshopper warbler**, Sand martin, **Lapwing**, Redshank, Nuthatch, Chiffchaff, **Skylark**, Great spotted Woodpecker, Swallow, Goldcrest and Reed Bunting.

Some of the invertebrates – which indicate how healthy the habitat is - found in the rivers include:

Golden-ringed dragonfly, Caddis fly, Stonefly, River Skater, Whirligig Beetle, River Limpet and Lesser Waterboatman. River qualities were assessed as River Dyfi HIGH, River Cwrt HIGH, Afon Sychan AVERAGE. River water qualities can be affected by coniferous needle drop from higher upstream, pollution or erosion.

Measures taken to support the Clean Waters and Ecosteps elements of the Pennal 2050 project include reduction in run-off into streams by better drainage measures on tracks, attempts to improve ph levels and, in the Pennal Forestry, a slowing-the-flow scheme using natural resources such as woody debris to try to reduce the water flow. More species are being encouraged by hedge, tree-planting and pond scrapes to create wildlife corridors and habitats. CAPTIONS: Pupils help monitor water quality and plant trees, Canary Shouldered Thorn moth was one of the species found and along with Caddis Fly stone shelter.



[pennalpartners@aol.com](mailto:pennalpartners@aol.com)





Skylark – in decline

# 2050 PENNAL 2050

## Newsletter 3




### PROSIECT YN ANNOG BYWYD GWYLLT

WEL am ystod o fioamrywiaeth sydd gennym yn ein hardal ni! Mae ecolegwyr wedi bod allan yn cynnal amrywiaeth o arolygon, yn cael eu helpu'n aml gan wirfoddolwyr neu ein plant ysgol gynradd.

Hyd yn hyn rydym wedi cynnal un arolwg gwyfynod, dau arolwg adar, monitro infertebrata dŵr croyw yn y Sychan, Cwrt a Dyfi yn ogystal â gwiriadau unigol cyn i rai o'n gwaith amgylcheddol o dan brosiect Pennal 2050 gael eu cyflawni. Dyma rai o'r 45 o rywogaethau adar a ganfuwyd (mae'r rhai mewn coch o bryder cadwraethol ac mae angen gweithredu i'w diogelu ar frys gan fod eu niferoedd wedi gostwng mor sylweddol yn ystod y 25 mlynedd diwethaf): Corhedydd Y Waun, **Llinos**, Telor Penddu, **Bronfaith**, Dringwr Bach, **Troellwr Bach**, Gwennol Y Glenydd, y **Gornchwiglen**, y Pibydd Coesgoch, Delor y Cnau, y Siff Saff, yr **Ehedydd**, y Gnocell Fraith Fwyaf, y Wennol, Dryw Eirben, Bras y Cyrs.

Mae rhai o'r infertebratau – sy'n dangos pa mor iach yw'r cynefin - sy'n byw yn yr afonydd yn cynnwys: Gwas y neidr eurdorchog, pryf pric, Pryf y cerrig, Rhiain y dŵr, Chwilen Fwgan, Brenigen yr Afon a'r Corixa punctata (Lesser Waterboatman). Aseswyd rhinweddau afonydd fel a ganlyn: Afon Dyfi UCHEL, Afon Cwrt UCHEL, Afon Sychan CYFARTALOG. Gall rhinweddau dŵr afon gael eu heffeithio gan nodwyddau conwydd yn disgyn o ardaloedd uwch yn y dalgylch, llygredd neu erydiad.

Mae'r mesurau a gymerwyd i gefnogi elfennau dyfroedd glân ac Ecogamau prosiect Pennal 2050 yn cynnwys lleihau'r dŵr ffo i nentydd drwy wella mesurau draenio ar lwybrau, ymdrechion i wella lefelau pH ac, yng Ngoedwigaeth Pennal, cynllun arafu'r llif gan ddefnyddio adnoddau naturiol fel malurion coed i geisio lleihau llif y dŵr. Mae mwy o rywogaethau'n cael eu hannog drwy blannu gwrychoedd a choed a chrafu'r pyllau i greu coridorau a chynefinoedd bywyd gwyllt. CAPSIYNAU: Disgyblion yn helpu i fonitro ansawdd y dŵr a phlannu coed, Roedd Gwyfyn Llwyn drain yn un o'r rhywogaethau a ganfuwyd ynghyd â'r pryf pric a phryfed y cerrig.



[pennalpartners@aol.com](mailto:pennalpartners@aol.com)



